

Cyngor Tref
CRICCIETH

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWDYD AM 7.00. YR HWYR NOS LUN
9 CHWEFWROR 2015 YN SIAMBR Y CYNGOR,STRYD FAWR,CRICCIETH.

Gweddi Agoriadol.

.....

Cymerwyd y Weddi Agoriadol gan y Cyng. R T Price.

Cof;-0102/15 Presennol.

.....

Cadeirydd Cyng. Eirwyn Williams

Is Gadeirydd Cyng. W A Evans

Cyng. R T Price.

Cyng. Siân Williams.

Cyng. Robert Cadwalader

Cyng. Elisabeth Regan

Cyng. Henry Jones

Cyng. Phil Jones

Cyng. Dr E Tudor Jones.

Cof;-0202/15 Ymddiheuriadau.

.....

Cyng. Elisabeth George

Cyng. Dafydd Lloyd.

Cyng. Wayne Roberts.

Cof;-0302/15 Datgan Diddordeb.

.....

Bu i'r Cyng. Elisabeth Regan ddatgan diddordeb yn y pennawd Llyfrgell

A'r Cyng. Dr E Tudor Jones yn y pennawd Llwyn Brith.

Cof;-0402/15 Cadarnhau Cofnodion Mis Ionawr 2015.

.....

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod Mis Ionawr fel rhai cywir a llofnodwyd hwy felly yn unol
â'r gyfraith.

Cyngor Tref
CRICCIETH

Cof;-0502/15 Materion yn codi o'r cofnodion trwy ohebiaeth.

.....
a) Llwybr Rhif 11

Derbyniwyd gohebiaeth bellach oddi wrth Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd yn awgrymu fod y Cyngor Tref yn cysylltu â pherchennog y tir i geisio ei ddarbwylllo pa mor bwysig yw cadw'r llwybr yma ar gyfer trigolion sydd yn hoffi cerdded a gofyn iddo a yw yn fodlon i ganiatáu ei uwchraddio.

PENDERFYNIAD;-Yn dilyn trafodaeth bu i'r Cyngor benderfynu anfon yn ôl at swyddog llwybrau yn tynnu ei sylw fod y mater yn mynd ymlaen ers cryn 3 blynedd bellach a'i bod yn methu deall sut na ellir gorfodi'r tirlfeddiannwr i weithredu ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd, deall y Cyngor yma yw bod pwerau cyfreithiol gan Gyngor Gwynedd i orfodi tirlfeddiannwr i gadw'r llwybrau cyhoeddus ar agor, felly awgrymu i'r Swyddog Llwybrau gysylltu â'i adran gyfreithiol am arweiniad.

Cof;-0602/15 Ceisiadau Cynllunio.

.....
Cais Rhif C15/0079/35/LL

Amrywio amod 11 caniatâd cynllunio C13/1106/35/LL er mwyn diwygio'r cynlluniau a gymeradwywyd i ganiatáu ffenestr llawr cyntaf yn wyneb dwyreiniol un o'r unedau gwyliau Safle cyn Old Boatshed Yr esplaned

PENDERFYNIAD;-Gwrthwynebu am y rhesymau canlynol;-

1 Bu i'r Cyngor Tref wrthod y cais cynllunio gwreiddiol am ei fod yn estronol i'r ardal ac felly methu deall sut yr oedd Cyngor Gwynedd yn gallu anwybyddu sylwadau'r Cyngor Tref a symud ymlaen i'w ganiatáu.

2 Mae'r dyluniad newydd eisoes mewn lle cyn cael y caniatâd.

3 Mae'r ffenestr p fewn 2 troedfedd i'r ffin ac yn edrych tros y tŷ cyfagos

Cais C15/0089/35/LL

Dileu amod 3,4,a,5 o ganiatâd cynllunio C13/1106/35/LL sy'n cyfeirio at gydymffurfio gyda'r coed tai cynladwy.

Safle cyn/Old Boatshed, Esplaned

PENDERFYNIAD; Gwrthod am yr ubn rhesymau ar uchod a chadw at y cynllun gwreiddiol.

Cyngor Tref
CRICCIETH

Cof;-0702/5 Prosiectau.

.....

Bu i'r Clerc hysbysu'r Aelodau fod cyfarfod safle wedi ei drefnu ar gyfer 23 Chwefror ac felly cyfarfod am 2 y prynhawn yn arosfan Caerdyni.

PENDERFYNIAD;- Derbyn yr wybodaeth a chlustnodi £2500 o arian y flwyddyn gyfredol ar gyfer cychwyn prosiect

Cof;-0802/15 Nadolig.

.....

Cyflwynodd y Clerc fanylion o gostau'r Cyngor ar goeden a goleuadau Nadolig am y blynyddoedd 2007/8 drwodd i 2014/15.

PENDERFYNIAD;- Creu cyfrif ar wahan yn y Banc ar gyfer costau Nadolig a'i agfoe gyda swm o £3,000

Cof;-0902/15 Mynedfa i ystâd Llwyn Brith.

.....

Tynnwyd sylw gan Aelod i'r problemau mae trigolion yr ystâd yn ei gael wrth geisio moduro allan i'r briffordd, Gan fod moduron yn parcio dwy ochr i'r briffordd mae'r gwelediad yn gul ac felly maent yn gorfod dod i'r briffordd cyn gallu gweld os oes traffig yn dod o gyfeiriad Pwllheli ac o gyfeiriad y Dref, y traffig yma yn moduro yng nghanol y ffordd oherwydd y parcio'r ddwy ochr i'r ffordd. Rhaid sylweddoli fod yr ardal yma wedi mynd yn ardal brysur iawn gyda'r Ganolfan Iechyd, Ganolfan Dydd, Gorsaf Betrol a Siop.

Yr oedd yr Aelod o'r farn y dylai'r llinell wen ar hyd y fynedfa fod o leiaf lathen yn fwy ym mhob pen i wella'r gwelediad wrth ddod allan o'r ystâd. Os na fydd rhywbeth yn cael ei wneud mae damwain yn aros i ddigwydd.

Bu i Aelod o'r Cyngor adrodd fod trigolion yr ystâd wedi derbyn llythyr oddi wrth adran trafndiaeth Cyngor Gwynedd yn awgymu ei bod yn rhoi llinellau melyn dwbl bob ochr i'r fynedfa i'w gwneud yn haws dod allan i'r briffordd.

PENDERFYNIAD;- Cefnogi'r awgrym yma a chysylltu â Swyddog Cyngor Gwynedd i'w hysbysu o hynny.

Cof;-1002/15 Ceisiadau am gyfraniad ariannol.

.....

a) Clwb Tennis Criccieth

Derbyniwyd Cais am gyfraniad ariannol tuag at gostau'r sefydliad.

Cyngor Tref
CRICCIETH

PENDERFYNIAD:- Cyfrannu mewn egwyddor y swm o £1,000 ond dim anfon y siec nes bydd y gaith wedi ei orffen.

- b) Mynwent Newydd Llanystumdwy
Derbyniwyd cais am gyfraniad ariannol i gyfarfod costau cynnal a chadw'r fynwent

PENDERFYNIAD;- Cyfrannu £1,000 gan fod nifer fawr o drigoion Criccieth yn gwneud defnydd o'r fynwent.

- c) Neuadd Goffa Criccieth
Derbyniwyd cais am gefnogaeth ariannol ar gyfer costau cynnal a chadw'r Neuadd Goffa.

PENDERFYNIAD;- Cyfrannu £5,000 gan fod y Neuadd yn bwysig i'r Dref.

Cof;-1102/15 Cynllun datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn

.....
Derbyniwyd dogfen oddi wrth Gyngor Gwynedd yn egluro ei bod wedi cytuno i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus am y cynllun, a bod trefniadau wedi ei gwneud i gychwyn arno o gwmpas 16 Chwefror a bydd y cyfnod yn dod i ben 31 Mawrth 2015.

Bydd cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn rhoi cyfle i'r Cyngor Tref gyflwyno sylwadau am unrhyw ran o'r cynllun adnau.
Fe ellir gweld y strategaeth, y polisiau a'r mapiau cynigiom fydd yn y cynllun trwy edrych ar adroddiad pwyllgor polisi cynllunio ar y cyd gan gyfarfu 18 Rhagfyr 2014..

PENDERFYNIAD; Rhoi y mater ar raglen cyfarfod nesaf y Cyngor Tref.

Cof;- 1202/15 Y Llyfrgell

.....
Tynnwyd sylw fod oherwydd cyfyngiadau ariannol Cyngor Gwynedd y bydd ystyried cau nifer o lyfrgelloedd y Sir a bod Criccieth yn un o'r rhai sydd dan sylw, byddai hyn yn golled fawr i'r Dref gan ei bod yn llyfrgell brysur iawn.
Eglurodd y Clerc fod Cyngor Gwynedd yn ystyried codi'r dreth gyngor am 2015/16 3.5 y cant ond os byddai ei chodi ei 4.5 y cant yn byddai posibilrwydd i gadw llyfrgelloedd y sir yn agored am flwyddyn arall ond rhaid pwysleisio nad yw Cyngor Gwynedd wedi gwneud unrhyw benderfyniad ar hyn o bryd a dislwgylir y bydd y dreth Gyngor yn cael ei phennu mewn cyfarfod ym Mis Mawrth.

PENDERFYNIAD ;- Gwrthwynebu cau y Llyfrgell gan fod defnydd mawr yn cael ei wenudd ohoni.

Cyngor Tref
CRICCIETH

Cof;- 1302/15 Derbyniadau.

.....

Dim derbyniadau.

PENDERFYNIAD;- Derbyn y wybodaeth

Cof;-1402/15 Taliadau.

.....

£360.00 R J Electrics –Golau Nadolig Siec 100930.

£ 97.00 Cyllid y Wlad (PAYE) Siec 100932

PENDERFYNIAD;-Rhoi hawl i'r Clerc dalu'r biliau.

Daeth y Cyngor i ben am;- 8.00 yr. Hwyr.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref Nos Lun 9 Mawrth 2015.

Bydd rhaglen y cyfarfod yma yn cau 2 Mawrth 2015.